30/06/2026

# Adroddiad Ymgynghoriad Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru

30 Mehefin 2026

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Cynnwys ........ 2
Ynglŷn â'r ddogfen hon ........ 3
Cynnwys yr ymgynghoriad ........ 3
Sut wnaethon ni ymgysylltu ........ 4
Prif ganfyddiadau ........ 4
    Trosolwg ........ 4
    Dadansoddiad gan Ddeallusrwydd Artiffisial ........ 5
Adolygu'r broses ymgynghori ........ 7
Camau Nesaf ........ 7

# Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan TrC parthed Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru. Mae'n rhan o'n gwaith ehangach ar fasnachfreinio bysiau. Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi ein canfyddiadau a'n camau nesaf.

Y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw oedd yr ymgyngoreion statudol a bennir yn Neddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026. Gwnaethom ymgynghori ag awdurdodau lleol, cyd-bwyllgorau corfforaethol, awdurdodau parciau cenedlaethol, a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli buddiannau teithwyr, gweithredwyr a gweithwyr gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Gorffennaf a 14 Hydref 2025.

Amcanion yr ymgynghoriad oedd:

- Bodloni'r amodau a nodir yn Neddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026.[1]
- Casglu adborth gan randdeiliaid allweddol ar ddrafft cyntaf Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru.
- Ategu'r arolygon sy'n wynebu'r cyhoedd sydd gennym ac sy'n cael eu cynnal ar yn ein rhanbarthau.

# Cynnwys yr ymgynghoriad

Cyn cyhoeddi'r cynllun o dan adran 5(1)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Bysiau Cymru 2026 (y Ddeddf), roeddem wedi paratoi drafft a gofyn am farn gychwynnol pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Yna cawsom adborth ehangach ar Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru (y Cynllun). Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, mae'r Cynllun yn nodi'r llwybrau a'r arosfannau allweddol ar gyfer gwasanaethau bws lleol yng Nghymru. O ran gwasanaethau bysiau lleol hyblyg ledled Cymru, mae'n nodi'r ardal ddaearyddol gan gynnwys unrhyw rannau sefydlog o'r llwybr ac unrhyw fannau stopio sefydlog yn ôl yr angen.

Roedd drafft y Cynllun yn cynnwys Rhwydwaith Canolfannau Arfaethedig De-orllewin Cymru, a rhwydwaith 'Pontio i Fasnachfreinio' Powys, a ddechreuodd ym mis Medi 2025. Ar gyfer gogledd Cymru, Ceredigion a de-ddwyrain Cymru, roedd y Cynllun drafft yn manylu ar y rhwydwaith presennol yn y rhanbarthau hyn fel y gweithredodd ym mis Mai 2025. Mae hyn oherwydd bod masnachfreinio yn cael ei gyflwyno trwy gyflwyniad rhanbarthol y disgwylir iddo

[1] Mae rhagor o wybodaeth am ofynion ymgynghori ar gael yma: Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026

gael ei gwblhau erbyn 2030. Mae trafodaethau dylunio rhwydwaith ar y gweill gyda'r awdurdodau lleol ym mhob rhanbarth a bydd newidiadau i'w gweld yn y dyfodol o'r Cynllun.

# Sut wnaethon ni ymgysylltu

Cafodd rhanddeiliaid allweddol eu briffio ym mis Mehefin 2025. Gofynnom i'r ymgyngoreion gynnig adborth drwy ein platfform dwyieithog 'Dweud eich Dweud' . Darparwyd testun rhagarweiniol ar y newidiadau deddfwriaethol i'r ffordd y bydd gwasanaethau bysiau lleol yn cael eu rheoli yn ogystal â'r newidiadau hoffem wireddu.

Er mwyn cwblhau'r arolwg, roedd yn rhaid i ymgyngoreion greu cyfrif a darparu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol. Manylwyd ar y Cynllun ar fap rhyngweithiol gyda'r prif bwyntiau cychwyn a gorffen teithiau bws. Roedd ymatebwyr yn gallu rhoi sylwadau ar y map rhyngweithiol a darparu cyflwyniadau ysgrifenedig ar y wefan.

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy e-fwletin dwyieithog a gyhoeddwyd gennym gyda'r lansiad ar 8 Gorffennaf 2025. Derbyniodd awdurdodau lleol neu gyfunol Lloegr e-fwletin ar wahân, yn gofyn iddynt roi adborth ar y rhwydwaith trawsffiniol yn hytrach na'r rhwydwaith cyfan.

Anfonwyd nodyn atgoffa ar 2 Medi 2025 wrth ymestyn y dyddiad cau ar gyfer sylwadau, a symudwyd o 7 i 14 Hydref, 2025.

# Prif ganfyddiadau

## Trosolwg

Cawsom 75 ymateb i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd 44 o gyflwyniadau trwy'r platfform 'Dweud eich Dweud'. Roedd y gweddill yn sylwadau llwybr penodol ar y map rhyngweithiol ac ymatebion uniongyrchol i TrC trwy e-bost neu lythyr.

Derbyniwyd ymatebion ffurfiol gan ymgyngoreion statudol ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd yr ymatebion statudol yn cynnwys:

- awdurdodau lleol ledled Cymru
- awdurdodau Lloegr ar y ffin
- awdurdodau parciau cenedlaethol
- sefydliadau'r GIG
- cyrff trafnidiaeth megis 'Transport Focus'
- sefydliadau a rhanddeiliaid eraill a gydnabyddir yn ffurfiol.

Yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr gefnogaeth i'n huchelgais o rwydwaith bysiau Cymreig tecach, mwy integredig.

Roedd y themâu isod yn cael eu hysgogi yn bennaf gan bryderon cyfredol a'r posibilrwydd eu bod yn parhau yn rhwydweithiau'r dyfodol:

- cysylltedd gwledig a chymunedau bach
- colli gwasanaethau uniongyrchol
- mynediad annigonol i ofal iechyd
- amlder annigonol gwasanaethau bysiau
- darpariaeth wael gyda'r nos ac ar y Sul
- integreiddio trawsffiniol.


Rhoddodd sylwadau lefel llwybr o'r map rhyngweithiol fewnwelediadau gweithredol penodol iawn a oedd yn atgyfnerthu'r themâu ehangach hyn.

Yn ogystal, rhoddodd rhanddeiliaid farn ynghylch ansicrwydd ynghylch trefniadau cyllido ac amserlenni masnachfreinio.


# Dadansoddiad gan Ddeallusrwydd Artiffisial

Adolygwyd yr ymatebion gan ddefnyddio Wordnerds, sy'n uno sianeli adborth i mewn i un 'Llais y Cwsmer' ac yn eu dadansoddi gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial. Trwy hyn, daeth rhai themâu penodol o ymatebion cyfranogwyr i'r amlwg. Yna, defnyddiwyd Copilot i ddadansoddi y rhain ymhellach, a darparodd y sylwadau gronynnog; gan eu didoli a'u categoreiddio o dan bob thema i greu set ddata strwythuredig, llawn tystiolaeth.

Graff 1. Teimladu am deithio ar fysiau yng Nghymru (75 ymateb)



Graff 2: Prif themau yr ymatebion (75 ymateb)




O ran y 75 ymateb a ddadansoddwyd, mae'r teimlad cyffredinol yn bennaf niwtral i gadarnhaol ynglŷn â'n rhwydwaith presennol (gweler Graff 1). Mae hyn yn dangos cefnogaeth eang i'n huchelgais o rwydwaith bysiau lleol yng Nghymru well, mwy integredig.

Mae'r dadansoddiad thematig (gweler Graff 2) yn dangos bod materion allweddol i ymatebwyr yn ymwneud â:

- mynediad gwledig
- gwallau mapio
- amlder gwasanaethau
- mynediad at ofal iechyd
- cysylltedd trawsffiniol
- integreiddio tocynnau a phrisiau
- hygyrchedd ymgynghori
- profiad a diogelwch teithwyr
- stopio a chyfnewid seilwaith
- cyflawnadwyedd a chyllid masnachfreinio.

Darparwyd rhywfaint o adborth sy'n benodol i'r llwybr hefyd.

# Adolygu'r broses ymgynghori

Adroddodd nifer o ymatebwyr anawsterau wrth ddefnyddio'r platfform ymgynghori, yn enwedig y map rhyngweithiol. Fe wnaethant godi pryderon am wybodaeth a oedd ar goll neu’n anghywir.

Gwnaethom gywiro gwallau a godwyd gan randdeiliaid cyn gynted â phosibl yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, oherwydd hynny, roedd hi’n anodd i rai ymatebwyr darparu adborth amserol, felly ymestynnwyd y ffenestr ymgynghori am wythnos.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn ochr-yn-ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus ehangach parthed Rhwydwaith Canolfannau De-orllewin Cymru. Rydym eisoes wedi cyhoeddi'r canfyddiadau yna.

Cynhaliwyd adolygiad cadarn gan ymgynghorydd annibynnol i wyntyllu cyflawniad yr ymgynghoriad hwn. Casglodd yr adolygiad hwn hefyd adborth gan ymgyngoreion statudol i sicrhau bod ein hymgysylltiad yn y dyfodol mor effeithiol â phosibl.

Yn dilyn yr adolygiad, byddwn yn:

- cyflwyno Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru ar ffurf tabl, ynghyd â mapiau sgematig
- adolygu'r broses ymgynghori i wella materion ansawdd data
- osgoi cynnal ymgynghoriadau rhwydwaith bysiau mawr ar yr un adeg
- cyhoeddi adroddiad blynyddol, sy'n amlinellu'r newidiadau rydym wedi'u cyflawni a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

# Camau Nesaf

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid am y newidiadau i’n rhwydwaith bysiau lleol.

Rydym am sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Byddwn yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r newidiadau rydym yn gweithredu i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru a manylion y newidiadau sydd i ddod.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i ddeall lefel y cyfranogiad y byddai rhanddeiliaid statudol yn hoffi ei gael a chyd-greu'r broses hon.